



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Mae Gorchymyn Cadw Mincod 1997 yn gwahardd cadw mincod o fewn Prydain Fawr ac eithrio o dan drwydded. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn.

Bydd y gorchymyn presennol yn peri bod y gofyniad trwyddedu hwn yn parhau am dair blynedd.

Mae gorchymynion tebyg yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr a'r Alban.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r mân bwyntiau canlynol wedi'u nodi. Deellir y bydd y rhain yn cael sylw yn y fersiwn brintiedig o'r Gorchymyn am mai cywiriadau yn unig ydynt i'r nodyn esboniadol a phennawd, ac nid i destun y Gorchymyn.

**Y Nodyn Esboniadol**

Yn y datganiad nad yw'r nodyn yn rhan o'r Gorchymyn ceir "Rheoliadau" yn y testun Cymraeg yn lle "Gorchymyn".

### **Y Nodyn Esboniadol, paragraff 1**

Mae'r cyfeiriad at OS 1997 mewn llythrennau bach yn hytrach na phriflythrennau ar gyfer "Order" yn y testun Saesneg.

Gan fod y Nodyn Esboniadol yn siarad o adeg gwneud y Gorchymyn, hwyrach y byddai "gwneud gan" yn well na "paratoi ar ran".

### **Y Nodyn Esboniadol, paragraff 2**

Er mwyn cyd-fynd â'r defnydd ar "title" yn y testun Saesneg, dylai'r testun Cymraeg ddefnyddio "teitl" yn lle "enw".

### **Y Nodyn Esboniadol, paragraff 3**

Mae hwn yn cyfeirio, mewn dau le, at "eithriadau ac addasiadau". Serch hynny, dim ond ar gyfer eithriadau y mae Erthygl 4 yn darparu.

### **Erthygl 1, y pennawd**

Gan mai "Title" yn hytrach na "Citation" sydd ym mhennawd y testun Saesneg, credir y dylai "Teitl" yn hytrach nag "Enwi" fod ym mhennawd y testun Cymraeg.

**Mick Bates AM**

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

5 Rhagfyr 2000